# Cyngor Cymuned Llanystumdwy

## Cofnodion Rhaglen waith y Cyngor - nos Iau, 9ed o Fawrth 2023 yn brydlon am 7:30 y.h. yng Nghapel Pencaenewydd, a drwy Zoom (roedd yn bosib cael mynediad i'r cyfarfod drwy gysylltu ar ebost gyda'r Clerc).

1. **Yn bresennol**: Y Cynghorwyr Angela Williams (Cadeirydd), Margaret Griffith, Thomas Prys Jones, Dylan Thomas, Aled Davies, Rhys Tudur, Delyth Parry, Tegid Jones, Sian Angharad Parry, Anwen Jones a Gareth O.Davies a'r Clerc.

**Ymddiheuriadau**. Cynghorwyr Miriam Williams, Aled Lloyd Evans, Darren Morley a Sion Aled Jones.

2. **Cyflwyno a chadarnhau cofnodion** cyfarfod y Cyngor gynhaliwyd ar 2ail o Chwefror 2023.

3. **Llofnodi cadarnhâd taliadau BACS** Chwefror 2023 (roedd y Clerc wedi trefnu i'r Cadeirydd ei gweld o flaen y cyfarfod a'i llofnodi).

4. **Datgan buddiant personol** – neb.

5. **Cynghorydd Twm Prys Jones** – wedi anfon llythyr at y Clerc yn datgan ei fod yn dymuno rhoi'r gorau i fod yn Gynghorydd Cymuned Ward Llangybi. Bydd yn terfynu ei wasanaeth yn dilyn cyfarfod 9fed o Fawrth 2023. Dywedodd ei bod wedi bod yn fraint cael cyfle i fod ymysg cyd-aelodau mor hynaws a chyfeillgar i drafod materion o bwys o fewn y gymuned
**Fe ddiolchwyd iddo am ei gyfraniad ar hyd y blynyddoedd a bydd colled ar ei ol oherwydd ei holl wybodaeth am hanes yr ardal.**

Bydd y Clerc yn gosod rhybudd yn nodi fod Sedd Wag Achlysurol yn Ward Llangybi, ar 13.03.2023, ar wefan y Cyngor a'r hysbysfyrddau, gyda dyddiad cau 31.03.2023. Os na fydd y Swyddog Cofrestru, Cyngor Gwynedd yn derbyn cais, bydd angen cyfethol aelod newydd.

6. **Hyfforddiant Cynghorwyr** – Mae'r Cynghorydd Delyth Parry wedi mynychu Cwrs Modiwl rhif 9 Cód Ymddygiad, a Chwrs Modiwl 2, Y Cynghorydd yn ystod y mis drwy zoom.

7. **Llywodraeth Cymru** –
**Adroddiad Blynyddol Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol – Chwefror 2023**
Angen trefnu cyfarfod i drafod polisiau, ac o bosib creu Polisi ar Daliadau i aelodau. **Trefnwyd i gynnal cyfarfod drwy 'zoom' nos Lun, 20.03.23 am 7:00 yr hwyr, sef Cynghorwyr Margaret Griffith, Rhys Tudur, Angela Williams a'r Clerc.**

**Materion gan Cyngor Gwynedd**

8. **Rhaglen Waith Trafnidiaeth a Priffyrdd** mis Mawrth 2023

| Lleoliad Gwaith | Disgrifiad o'r Gwaith |
|---|---|
| Pencaenewydd | Draeniad |

**Rhybudd - Cau Ffordd Dosbarth III rhwng Hendy Bach a Tyddyn y Felin,Cricieth** - gwaith adfer polyn a cheblau BT Openreach, ar 09.03.2023 (o fewn 1 diwrnod ond nid hirach na 3 diwrnod). **Derbyn**.

9. **Ymgyrch 20 milltir yr awr** – Rod King, Sylfaenydd a Chyfarwyddwr yr Ymgyrch – wedi anfon manylion am y bwriad o osod terfyn cyflymder ar gyfer dinasoedd, trefi a phentrefi yng Nghymru o 17 Medi 2023, gydag eithriadau o 30 milltir yr awr yn cael eu pennu gan yr awdurdod priffyrdd lleol.

Yng Nghymru maent eisiau cynorthwyo Cynghorau Tref a Chymuned gyda'r fenter "Diolch am 20" gydag adnoddau i hybu dealltwriaeth o'r hyn sydd i ddod a dathlu'r newid fel bod pawb yn sylweddoli faint o bwysig yw y mannau yma. **Derbyn**.

10. **Gorchymyn Cyngor Gwynedd** (gwahardd a chyfyngu aros a mannau parcio ar y stryd (Ardal Dwyfor Rhif 7) 2023

Derbyniwyd copi Gorchymyn drafft, y rhybudd 1af a'r rhesymau dros fwriad y Cyngor i wneud y Gorchymyn. Mae'r cyfnod gwrthwynebu gwneud y gorchymyn yn dirwyn i ben ar y 5ed o Ebrill, 2023.

- **Chwilog** - Ffordd Dosbarth 2 - B4354
  Ar ochr ddeheuol y ffordd o gornel Y Madryn i fynedfa Gerddi Madryn, am bellter o oddeutu 12 metr. Dim aros ar unrhyw adeg.

- **Llanystumdwy** - Ffordd Dosbarth III - Maen y Wern
  Ar ochr ogleddol y ffordd, yn cychwyn gyferbyn â rhif 2 Talafon i gyfeiriad y dwyrain am oddeutu 22 metr. Dim aros ar unrhyw adeg. **Derbyn**.

11. **Adroddiad Anghenion Tai Llanystumdwy** gan Hwylusydd Tai Gwledig Grwp Cynefin – y Clerc wedi anfon yr adroddiad at y cynghorwyr i gyd. **Derbyn**.

**Materion yn y gymuned**.
12. **Llanystumdwy**
**Mainc wedi cael ei dwyn rhwng Llanystumdwy a Bron Eifion**
Sylweddolwyd fod y fainc wedi cael ei dwyn ar 23.02.2023. Mae'r Clerc wedi cysylltu hefo'r Heddlu, a ffonio'r ddau gwmni 'scrap' lleol, ond nid oedd unrhyw wybodaeth amdani. Fe wnaed ymholiadau hefo'r Adran Priffyrdd hefyd oherwydd ar adegau mae'r ymgymerwyr statudol yn symud meinciau a dodrefn stryd er mwyn trwsio neu uwchraddio ei systemau, cyn symud nhw yn ol ar ol iddynt orffen ei gwaith. Yn anffodus, ni oedd neb yn gwybod dim amdani.
Y Clerc hefyd wedi cysylltu hefo Clerc Cricieth, i'w rhybuddio fod hyn wedi digwydd.
**Gofynwyd i'r Clerc wneud ymholiadau hefo'r cwmni yswiriant i weld os byddai hyn yn effeithio ar y premiwm a delir.**

13. **Rhoslan/Ynys**

14. **Chwilog**
**Cais i gael arwyddion yn nodi'r Lôn Goed cyn yr Eisteddfod Genedlaethol**. Clerc wedi derbyn ateb gan Alun Fon Williams, Gwasanaeth Twristiaeth, Marchnata a Digwyddiadau, Cyngor Gwynedd. Y Clerc wedi cwblhau'r ffurflen gais, a'i dychwelyd a bydd y Gwasanaeth Traffig yn cysylltu â'r Clerc i drafod a phenderfynu ar gynllun a darparu pris am wneud y gwaith. **Gofynwyd i'r Clerc ofyn am arwydd yn dangos Traeth Afonwen hefyd.**

15. **Lamp Bro Sion Wyn, Chwilog – angen ei thrwsio/adnewyddu**. Clerc i holi.

16. **Pencaenewydd/Sardis**
17. **Llangybi**

18. **Gwaith ar y llwybrau, Ebrill 2023 ymlaen**.

a. Llwybr swyddogol o Ffynnon Cybi i ben Garn Bentyrch, un toriad.
b. Llwybr dan bont y rheilffordd i'r traeth yn Afonwen, dau doriad.
c. Llwybr heibio Ynysgain Bach hyd at bont y rheilffordd, dau doriad.
ch. Llwybr o'r ffordd fawr i fyny at fythynnod Tŷ Newydd, dau doriad.
d. Llwybr Clawdd Llanw o Bontfechan dros y rheilffordd am Ty'n Morfa, dau doriad.
dd. Ceg y llwybr ar hen ffordd Abercin, ochr y pentref i'r ffordd osgoi.
e. Cadw safle bedd D. Lloyd George yn daclus yn ystod y tymor.

f. **Maenywern, Llanystumdwy** – gwaith clirio tir y Cyngor ger y bont ac ar hyd y wal i fyny tuag at y Bedd.

***Bydd angen hysbysebu yr uchod ar y wefan, Y Ffynnon a'r hysbysfyrddau i gael prisiau, hefo dyddiad cau 30.04.2023, er mwyn ei trafod yn y cyfarfod mis Mai.***

ff. **Cytundeb torri Cae Chwarae Llangybi** (cytundeb 3 mlynedd eisioes wedi ei wneud rhwng Ebrill 2021-Mawrth 2024.

g. **Glanhau llochesi bws** – cytundeb 3 mlynedd eisioes wedi ei wneud rhwng Ebrill 2021 tan 31.03.2024.

**Materion Ariannol**

19.**Adroddiad Ariannol** gan y Clerc a'r Swyddog Ariannol Cyfrifol.
Gwnaeth y Clerc anfon ebost at y cynghorwyr i gyd cyn y cyfarfod, drwy gynnwys dogfen 'excel'o'r sefyllfa ariannol hyd at 08.03.2023. Mae hyn yn cadw golwg manwl ar y gwariant sydd eisioes wedi ei wneud. (Gwnaeth y Clerc drefnu i ddangos y biliau i gyd i'r Cadeirydd i'w llofnodi a'i awdurdodi o flaen y cyfarfod, cyn ei talu). Eglurwyd na dderbyniwyd ambell i fil cyn diwedd y flwyddyn ariannol, fel yr archwilio allannol am llynedd ac eleni, fod yr arian grant £2,000.00 ar gyfer Cof Eifionydd dal yn y cyfrif cyfredol, heb dderbyn biliau llogi lleoliad Neuadd Chwilog a Capel Pencaenewydd, ac wedi bwriadu prynu mwy o enwau pontydd, ond yn dal i ddisgwyl ateb gan Cyngor Gwynedd os oeddent am ei gosod nhw'n ddi-gost fel y tro blaen.

20. **Archwilio mewnol** – penderfynwyd gofyn wrth Adran Archwilio Cyngor Gwynedd wneud yr archwilio mewnol am y flwyddyn 01.04.2022 - 31.03.2023 eto eleni.

21. **Cais ariannol Neuadd Chwilog** – dal heb dderbyn mantolen, felly gofynwyd i'r Clerc anfon llythyr atynt yn egluro, oherwydd ei bod wedi cael cyfle ac amser ychwanegol I ddarparu'r wybodaeth, nid oedd taliad am gael ei wneud.

22. **Cyfraniadau ariannol** – derbyniwyd llythyrau/ebyst yn diolch gan bawb a dderbyniodd daliad yn dilyn cyfarfod mis Chwefror 2023.

23. **Cais am arian**- gan Rachel Heal, sydd yn fam i blentyn 4 oed, sydd yn mynychu Ysgol Hafod Lon, ac yn ceisio helpu'r ysgol godi rhywfaint o arian i fedru archebu beic arbennig i blant oed cynradd i ddysgu defnyddio beic yn annibynnol. Mae'n cysylltu gyda chynghorau lleol i weld os byddai modd gefnogi hyn. Mae linc i dudalen Go Fund Me wedi cael ei greu yn arbennig. **Penderfynwyd gwrthod**.

24. **Croesawu'r Eisteddfod i bentrefi/ardaloedd o fewn ffiniau Cyngor Cymuned Llanystumdwy** – mae'r baneri/'bynting,' wedi cael ei archebu, a gellir ei rhannu yn nes at yr adeg.

25. **Taliadau** BACS angen cael ei gwneud yn dilyn y cyfarfod:

| **Enw/Rheswm** | Rheswm | Pris<br>£ | TAW | Cyfanswm Taliad<br>£ | Taliad BACS<br>£ |
|---|---|---|---|---|---|
| Un Llais Cymru | Tâl aelodaeth 2023/2024 | **359.00** | | **359.00** | **359.00** |
| Wifi Capel Pencaenewydd | Mae'r taliad rhwng 01.04.22 – 31.03.2023 (£37.14 x 7 mis £48.34 x 1 mis, £49.14 x 4 mis = £504.88) | **504.88** | | **504.88** | **504.88** |
| Y Ffynnon (M1164) | Hysbyseb Tachwedd a Rhagfyr | **28.00** | | **28.00** | **28.00** |
| D A & D W Davies (*Ad-daliad am dalu am yr archeb-manylion ar ebost gan y Clerc- Hyper Retail Company/ebay)* | Bynting a baneri at yr Eisteddfod Genedlaethol | **190.00** | | **190.00** | **190.00** |

26. Cyflog mis Chwefror 2023 y Clerc i'w rannu rhwng y Clerc a Chyllid a Thollau EM.

| **Enw/Rheswm** | Swm<br>£ | Cyfanswm Taliad net<br>£ | Taliad BACS:-<br>£ |
|---|---|---|---|
| Cyflog sylfaenol y Clerc, Chwefror 2023<br>35 awr y mis x £12.50 = £437.50 | 437.50<br>Llai treth £87.60=<br>**£349.90** | **349.90** | **349.90** |
| Cyllid a Thollau EM Treth ar enillion y Clerc Chwefror 2023 | £438.00 x 20% =<br>**£87.60** | **87.60** | **87.60** |
| Costau Clerc mis Chwefror 2023 | **£16.00** | **16.00** | **16.00** |

Materion hwyr – gyda chaniatad y Cadeirydd.

27. Cytuno i dalu'r isod sydd wedi cyrraedd ar ol gwneud y rhaglen.

| **Enw/Rheswm** | Rheswm | Pris<br><br>£ | TAW | Cyfanswm Taliad<br>£ | Taliad BACS<br>£ |
|---|---|---|---|---|---|
| Gareth Glyn Jones (844863) | Gofalu am Fedd Lloyd George 01.04.22-31.03.23 | **300.00** | | **300.00** | **300.00** |
| Un Llais Cymru (6964) | Hyfforddiant(07.02.23 & 09.02.23) | **35.00** | | **35.00** | **35.00** |

28. **Fron Heulog, Llangybi** – angen cysylltu hefo Cyngor Gwynedd oherwydd fod gwreiddiau coed yn dymchwel y wal wrth ymyl y lon, sydd yn beryglus.

29. **Golchdy Afonwen** – mater brys gan Cynghorydd Rhys Tudur. Mae problem yno oherwydd fod ceir yn parcio ar y lon o flaen y safle. Gofynwyd i'r Clerc anfon llythyr at Rheolwr Afonwen, yn gofyn i neb barcio ar y lon o flaen y lle, a gofyn wrth Cyngor Gwynedd am osod llinnellau melyn yno, ac i ystyried cael arwydd 40 milltir yr awr o gylchfan Afonwen i bentref Chwilog.

Cytunwyd y byddai'r cyfarfod nesaf ar y nos Iau **06.04.2023** am 7:30 drwy Zoom yn unig.

**It is possible to get an English translation of any minute, please contact the Clerk.**